# Arolwg 2018 Cyngor Ewrop ac ALTE o bolisïau iaith a ‘gwybodaeth o gymdeithas’ ar gyfer mewnfudwyr



EDUCATION FOR DEMOCRACY

ALTE
Association of Language Testers in Europe

1949.2019

COUNCIL OF EUROPE
CONSEIL DE L’EUROPE



## Prif dueddiadau

- Tros y degawd diwethaf mae mwy o aelod-wladwriaethau Cyngor Ewrop wedi gosod gofynion ffurfiol o ran iaith a 'gwybodaeth o gymdeithas' fel rhan o'u polisïau mewnfudo a chymathu.

- Mae'r rhan fwyaf o aelod-wladwriaethau'n gosod gofynion ffurfiol o ran iaith a 'gwybodaeth o gymdeithas' pan fydd mewnfudwyr yn gwneud cais am ddinasyddiaeth. Yn hanner y gwladwriaethau hyn, rhaid i fewnfudwyr gwrdd â'r gofynion hyn er mwyn bod yn breswylydd. Mae traean yn gwneud hyn cyn caniatáu mynediad.

- Mae gwahaniaethau sylweddol a thrawiadol o ran yr union lefel o hyfedredd iaith sy'n ofynnol rhwng y aelod-wladwriaethau.


- Prin fod grwpiau bregus (yr ifanc, ceiswyr lloches, dysgwyr â llythrennedd isel) yn cael eu heithrio o'r profion.

- Mae llawer o aelod-wladwriaethau'n defnyddio profion sydd heb dderbyn rheoli ansawdd. Prin fod yr effaith ar fewnfudwyr yn cael ei harchwilio.


- Mae bron pob aelod-wladwriaeth yn darparu cyfleoedd dysgu i fewnfudwyr, ond mae'r nifer o oriau a ddarperir yn aml yn annigonol, yn arbennig ar gyfer grwpiau bregus.

## Gofynion a phrofion

O blith yr aelod-wladwriaethau a holwyd yn 2018, roedd gan 78% ofynion iaith a/neu wybodaeth o gymdeithas ar gyfer dinasyddiaeth. Roedd 17% heb fod â gofynion tebyg fel rhan o'u polisi mewnfudo:




Rhwng 2017 a 2018, mae mwy o wledydd wedi dechrau gweithredu profion iaith (glas tywyll) a phrofion 'gwybodaeth o gymdeithas' (glas golau) yn arbennig ar gyfer dibenion dinasyddiaeth:




Bron bob amser, mynegir y gofynion iaith gan ddefnyddio lefelau'r CEFR, ond does fawr o gysondeb yn y lefelau angenrheidiol ar gyfer yr un diben ar draws yr aelod-wladwriaethau.

# Cyfleoedd dysgu

Mae cyrsiau iaith ar gyfer mewnfudwyr yn aml yn cael eu darparu gan y wladwriaeth, a'u hansawdd wedi ei reoli. Yn y rhan fwyaf o achosion, fodd bynnag, bydd mewnfudwyr yn derbyn dim ond hyd at 250 o oriau o hyffordiant iaith am ddim:

**Oriau o hyfforddiant iaith a ddarperir am ddim**

| | Pob dysgwr (n = 24) | Dysgwyr llythrennedd isel (n = 22) |
|---|---|---|
| 0 – 250 | 11 | 13 |
| 250 – 500 | 8 | 4 |
| 500 – 1000 | 4 | 2 |
| 1000 – 1500 | 1 | 2 |
| 2000 – 3000 | 0 | 1 |


Mae llawer o aelod-wladwriaethau'n cynnig cyrsiau 'gwybodaeth o gymdeithas'. Yn y rhan fwyaf o achosion, dim ond yn iaith swyddogol y wlad letyol y cynigir y rhain.

Ychydig o aelod-wladwriaethau sy'n rhoi sylw digonol i grwpiau bregus yn eu polisi mewnfudo: ar gyfer pobl ifanc, dim ond ychydig o gyfleoedd dysgu iaith sydd ar gael y tu allan i'r gyfundrefn ysgolion, a phrin y rhoddir sylw o gwbl i anghenion ffoaduriaid a dysgwyr llythrennedd isel.

## Argymhellion

- Gan fod cyrsiau'n debygol o fod yn fwy buddiol er mwyn cymathu na phrofion, dylai cyfleoedd dysgu fod yn fforddiadwy ac yn hygyrch i bawb.
- Os defnyddir profion at ddibenion mewnfudo, dylent fod o'r safon uchaf o ran ansawdd a thegwch.
- Wrth gynllunio polisïau mewnfudo a chymathu, dylid rhoi sylw penodol i grwpiau bregus.
- Oherwydd pryderon am hawliau dynol, argymhellir peidio â defnyddio gofynion cyn cael mynediad ar gyfer aduno teuluoedd.

**O blith y 47 o wladwriaethau-aelod o Gyngor Ewrop, cymerodd 40 ran yn arolwg 2018:**



Cynhaliwyd arolwg Cyngor Ewrop ac ALTE gan:


- Lorenzo Rocca
  (Università per Stranieri di Perugia)
- Cecilie Hamnes Carlsen
  (Western Norway University of Applied Sciences)
- Bart Deygers
  (Ghent University)



Cyfieithiad:
Dr Emyr Davies
(CBAC-WJEC)

Gellir llwytho'r adroddiad llawn yma:
**www.coe.int/lang-migrants**



© Council of Europe, 2019

PREMS 035520

**Gallois**

**www.coe.int**

Cyngor Ewrop yw'r sefydliad arweiniol ar hawliau dynol ar y cyfandir. Mae'n cynnwys 47 o aelod-wladwriaethau, gan gynnwys holl aelodau'r Undeb Ewropeaidd. Mae pob aelod-wladwriaeth yng Nghyngor Ewrop wedi ymrwymo i Gonfensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol, cytundeb a luniwyd i amddiffyn hawliau dynol, democratiaeth a threfn drwy gyfraith. Mae gan y Llys Ewropeaidd ar Hawliau Dynol orolwg dros weithredu'r Confensiwn yn yr aelod-wladwriaethau.

COUNCIL OF EUROPE

CONSEIL DE L'EUROPE